Estyn



# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Gynradd Trelogan

**Dyddiad yr arolygiad: Gorffennaf 2024**

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Trosolwg

Mae arweinwyr a llywodraethwyr wedi dod ag Ysgol Trelogan ac Ysgol Gronant at ei gilydd i ffurfio ffederasiwn llwyddiannus o ysgolion. Caiff Ffederasiwn Y Parlwr Du ei arwain yn dda ac mae'r ddwy ysgol yn lleoedd croesawgar i ddysgu. Mae staff wedi ymrwymo i wella pob agwedd ar fywyd ysgol. Maent yn gweithio'n galed i gynnal perthnasoedd cadarnhaol a chefnogol rhwng staff a disgyblion, a rhwng yr ysgol a'r cartref.

Yn Ysgol Trelogan, mae pob un o'r disgyblion yn mwynhau'r ysgol. Maent yn ddiogel, a gwrandewir arnynt, ac yn teimlo bod eu syniadau'n gwneud gwahaniaeth yn yr ysgol a'r gymuned leol. Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn ymddwyn yn dda, yn ymgysylltu'n gadarnhaol â'r ystod eang o brofiadau dysgu a ddarperir, ac yn gwneud cynnydd da, o leiaf, yn eu dysgu. Mae ymagwedd yr ysgol at gynllunio profiadau dysgu yn hynod effeithiol ac mae disgyblion yn mwynhau cyfleoedd cyffrous i ddysgu gan ystod eang o bobl o gefndiroedd amrywiol sy'n rhannu eu medrau, eu doniau a'u diwylliannau. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'r hyder a'r medrau i fynegi eu hunain yn huawdl, rhannu eu syniadau, a datblygu empathi a dyhead.

Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn datblygu agweddau cadarnhaol at lafaredd, darllen ac ysgrifennu ac yn mwynhau'r cyfleoedd niferus i fod yn fynegiannol a chreadigol. Maent yn defnyddio dyfeisiau digidol yn effeithiol i gefnogi eu dysgu a llunio adroddiadau, cyflwyniadau a ffilmiau byr. Maent yn datblygu medrau a gwybodaeth fathemategol dda.

Mae athrawon yn defnyddio ystod o strategaethau, fel holi effeithiol ac adborth uniongyrchol, i ymestyn y dysgu. Maent yn cynllunio dilyniannau o wersi sy'n cynorthwyo disgyblion i feithrin eu medrau'n raddol mewn llawer o agweddau ar eu dysgu. Maent yn aml yn gweithio gyda'u disgyblion i gynllunio profiadau dysgu ystyrlon sy'n ymgysylltu â nhw ac yn dal eu diddordeb. Mae llawer o'r profiadau hyn yn galluogi disgyblion i ddarganfod am hanes a diwylliant eu hardal leol a Chymru, ac archwilio materion sy'n effeithio arnyn nhw a phobl eraill, fel tegwch a chynaliadwyedd. Mae disgyblion iau yn elwa'n fawr ar gyfleoedd dysgu ystyriol yn yr awyr agored.

O oedran ifanc, mae disgyblion yn awyddus i wneud yn dda ac ymgymryd â heriau newydd. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw disgyblion hŷn yn cael digon o ddylanwad dros eu dysgu eu hunain, ac nid ydynt bob amser yn deall sut i wella'u gwaith yn llwyddiannus dros gyfnod.

# Argymhellion

**A1** **Datblygu disgyblion hŷn i fod yn ddysgwyr annibynnol effeithiol**

**A2** **Gwella ansawdd adborth ar gyfer disgyblion hŷn**

# Beth sy’n digwydd nesaf

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.**

**Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith yn gysylltiedig â chynllunio dysgu dilys i feithrin perthnasoedd ar draws ffederasiwn o ysgolion, i’w lledaenu ar wefan Estyn.**



# Cyd-destun yr ysgol

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Trelogan |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir y Fflint |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 60 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 52 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 8 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 23.7%) | 11% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 13.2%) | 8.3% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 0.0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/04/2022 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 01/07/2013 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 01/07/2024 |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 03/09/2024

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.